# Ymateb Plaid Cymru i ymgynghoriad Ofcom ar drefniadau darlledu teledu annibynol yng Nghymru

Mae Plaid Cymru yn cefnogi argymhelliad Pwyllgor Ymgynghorol Cymru OFCOM i greu trwydded benodol Sianel 3 i Gymru. Mae Plaid Cymru yn credu'n gryf bod y cam hwn yn gwbl angenrheidiol er mwyn adlewyrchu'r datblygiadau cynyddol yn strwythur datganoledig Cymru.

Mae'r pedwar rheswm a nodwyd gan PYC dros y newid hwn yn amodau'r drwydded yn gwbl ddilys ac yn adlewyrchu'r hyder cynyddol ymhlith pobl Cymru yn eu cenedligrwydd.

Mae teledu annibynnol wedi chwarae rhan greiddiol yn y datblygiad democrataidd hyn ers dyddiau Teledu Cymru a TWW ond gallai'r 'briodas' gyda De Orllewin Lloegr brofi yn llestair yn y dyfodol. Mae cyfraniad Teledu Annibynol i ddiwylliant Cymru wedi bod yn eang ac yn amrywiol ar draws y degawdau ond mae cyfod newydd yn agor ym maes darlledu a thechnoleg a byddai trwydded genedlaethol yn galluogi creu datrysiadau penodol i Gymru i rai o'r heriau sy'n eu wynebu.

Mae Plaid Cymru o'r farn bod yn rhaid gosod amod ar yr ymgeisydd llwyddiannus am Sianel 3 yng Nghymru i baratoi gwasanaeth newyddion safonol a digonol i adlewyrchu realiti gwleidyddol y genedl. Ni ddylai amodau'r drwydded ganiatáu i'r cwmni llwyddiannus ostwng y ddarpariaeth yn is na'r 5awr a hanner presenoll am dymor y drwydded.

Mae Cymru angen gwasanaeth newyddion cynhwysfawr ac un sy'n sicrhau dewis amgen i wasanaeth y BBC. Dylid ystyried gosod amodau pellach ar yr ymgeisydd llwyddiannus i adlewyrchu diwylliant Cymru y tu hwnt i faes newyddion a materion cyfoes.